


# GWEITHDREFN Cronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF)

Darperir y Gronfa Ariannol Wrth Gefn yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru, rheolir yr FCF gan y Coleg, gyda'r nod o gael gwared ar rwystrau i ddysgu ar gyfer dysgwyr mewn caledi ariannol. Bydd mynediad at gymorth ariannol drwy'r gronfa hon yn dibynnu ar incwm yn y cartref ac amgylchiadau unigol. Gall dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) i bobl ifainc 16 i 18 oed, neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLlC) ar gyfer y rheini sy'n 19 oed neu'n hŷn, neu unrhyw ddysgwr sy'n profi caledi ariannol wneud cais am gymorth ariannol oddi wrth yr FCF.

Mae'r FCF yn agored i ddysgwyr ôl-16 oed ac mae'n gronfa gyfyngedig.

Gall yr FCF gefnogi myfyrwyr gyda chost t[illegible]
teithiau a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) lle bo'n berthnasol ayyb.

Gall yr FCF gefnogi myfyrwyr gyda chost prydau bwyd. Mae yna lwfans prydau bwyd dyddiol ar gael i fyfyrwyr. Fel arfer, rhaid i fyfyrwyr neu rieni/gwarcheidwaid ddangos eu bod yn derbyn un o'r budd-daliadau canlynol: rth sy'n gysylltiedig ag incwm

- credyd treth plant (ond nid credyd treth gwaith) os nad yw eich incwm blynyddol, fel yr aseswyd gan gredydau treth, yn fwy na £16,190
- elfen gwarantu credyd pensiwn
- credyd treth gwaith 'dal i redeg' (y taliad y gall rhywun ei dderbyn am bedair wythnos arall ar ôl iddyn nhw beidio â bod yn gymwys ar gyfer credyd treth gwaith bellach)
- credyd cynhwysol (ddim mewn gwaith)
- credyd cynhwysol (mewn gwaith) lle mae eich dyfarniad ar sail enillion blynyddol sydd o dan £7,400 eich cyflogaeth neu hunangyflogaeth

Mae'r Rheolwr (Gwasanaethau Cwsmeriaid) yn gyfrifol dros ddatblygu gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli'r FCF yn gyffredinol. Y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid sy'n gyfrifol dros weinyddu pob

cais i'r gronfa. Efallai bydd rhaid addasu gweithdrefnau'n flynyddol yn dibynnu ar arweiniad Llywodraeth Cymru, blaenoriaethau o ran cefnogi dysgwyr a'r arian sydd ar gael.